# Canllawiau ar gyfer Arolygwyr Datblygu Gwledig

*Safonau a chanllawiau dilysadwy ar gyfer dosbarthu methiannau*
**Arfer Ffermio Da** yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CRI/001/001

**Fersiwn 03 – 30 Tachwedd 2009**

| Gofyniad | Y Tramgwydd | Pa mor fawr [Yn effeithio/ ddim yn effeithio ar y fferm yn unig] | Difrifoldeb [Braidd dim, Isel, Canolig neu Uchel] | Pa mor barhaol [Modd ei gywiro neu Barhaol] |
|---|---|---|---|---|
| ***NODWEDDION LLINELLOG*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid cadw pob wal sych, clawdd pridd a charreg, ffens lechi, postyn gât a chamfa draddodiadol. Rhaid cael caniatâd yr awdurdod perthnasol i'w dymchwel neu eu difetha ar dir.<br><br>O dan y rheolau hyn, mae ffin cae yn golygu:<br><br>Ffin ddi-dor 10 metr neu fwy, waeth beth yw ei chyflwr; neu<br><br>Ffin ddi-dor sy'n llai na 10 metr - mae pob pen iddi'n cwrdd â ffin cae arall (boed trwy groesffordd neu gyffordd) neu mae'n ffurfio cae bychan.<br><br>Rhaid ichi beidio â:<br><br>Dymchwel wal garreg ar eich tir; neu<br><br>Tynnu cerrig o wal garreg ar eich tir, ac eithrio am y rhesymau canlynol:<br><br>i) os oes angen lledu bwlch yn y wal er mwyn gadael peiriannau neu dda byw drwyddo. Ni chewch dynnu mwy o gerrig nag sydd ei angen i wneud hynny | Dymchwel ffin draddodiadol fel wal garreg neu dynnu cerrig o wal garreg sydd o dan Gytundeb Datblygu Gwledig. Ac eithrio ar gyfer creu neu ledu bwlch, hyd at 5m | Yn effeithio ar y fferm yn unig | Braidd dim – hyd at 1 metr<br><br>Isel – hyd at 10m sy'n cael mwy o effaith na llythyr rhybuddio.<br><br>Canolig – 10-50m<br><br>Uchel – mwy na 50m | Modd ei gywiro neu Barhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Torri neu docio perthi yn anghyfreithlon yn y cyfnod gwaharddedig, heb gynnwys eithriadau (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst)<br><br>(Eithriad pan fo angen plannu cnydau âr ym mis Awst). | Ar y fferm | Braidd dim:<br>Pan fo un rhan wedi'i thorri'n anghyfreithlon mewn unrhyw un parsel.<br>Isel: Pan fo un rhan neu fwy wedi'i thorri'n anghyfreithlon mewn unrhyw un parsel gan gael mwy o effaith na llythyr rhybuddio.<br>Canolig: Pan fo sawl rhan wedi'i thorri'n anghyfreithlon o fewn sawl parsel neu unrhyw barsel cyfan.<br>Uchel: Pan fo mwy nag un parsel cyfan wedi'i thorri'n anghyfreithlon. | Modd ei gywiro |
| ***Safleoedd dynodedig*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu rheolau cyfredol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.<br><br>Ni ddylech wneud y canlynol ar unrhyw dir sy'n SoDdGA:<br><br>o Cynnal unrhyw waith a nodwyd yn yr hysbysiad sy'n dynodi'r tir yn SoDdGA, oni bai eich bod wedi cael caniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, neu fod y gwaith wedi'i gwmpasu gan delerau cytundeb, hysbysiad neu gynllun rheoli;<br><br>o Gan wybod fod y tir yn SoDdGA, dinistrio neu ddifa'n fwriadol neu'n ddi-hid unrhyw blanhigion, anifeiliaid, nodweddion daearegol neu nodweddion eraill y dirwedd a arweiniodd at ddynodi'r tir yn SoDdGA, neu darfu ar yr anifeiliaid hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid. Dim ond pan fydd gennych ganiatâd cynllunio i gwblhau'r gwaith neu pan fydd argyfwng (cyn belled eich bod yn hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl yr argyfwng) y cewch chi dorri'r rheol hon.<br><br>➔ Methu â chydymffurfio â hysbysiad rheoli a gyflwynwyd i chi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, neu gyda gorchymyn adfer a roddwyd i chi gan lys. | Mae'r ffermwr wedi cynnal neu wedi caniatáu gwaith na roddwyd hysbysiad neu ganiatâd ar ei gyfer neu<br><br>Mae'r ffermwr wedi cynnal neu wedi caniatáu gwaith ac wedi methu cydymffurfio â thelerau'r caniatâd. | Yn y rhan fwyaf o achosion: Yn effeithio ar y fferm yn unig<br><br>Mewn achosion o effaith pellgyrhaeddol: Ddim yn effeithio ar y fferm yn unig | Isel – Heb achosi difrod neu niwed<br><br>Canolig – Wedi achosi ychydig o ddifrod neu niwed<br><br>Uchel – Wedi achosi difrod neu niwed difrifol<br>I'w bennu yn unol â chanlyniadau peidio â chydymffurfio | Modd ei gywiro neu Barhaol |
| Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau'ch bod yn nodi lleoliad a maint yr holl henebion cofrestredig a heb eu cofrestru ar eich daliad.<br><br>**Dylai'r ffermwr fod wedi cael gwybod am bob heneb ar ei gopi o'r Cytundeb Datblygu Gwledig, ond os oedd yn ansicr, dylai fod wedi cysylltu â Chofnod yr Amgylchedd Hanesyddol yr Awdurdod Lleol neu'r ymddiriedolaethau archaeolegol.** | **Mae heneb gofrestredig wedi'i difrodi.** | **Ar y fferm neu** oddi ar y fferm | **Canolig**<br>Nid yw'r difrod yn effeithio ar gyfanrwydd yr heneb.<br><br>**Uchel**<br>Mae'r difrod yn effeithio ar gyfanrwydd yr heneb | **Modd ei gywiro neu** Barhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mae heneb gofrestredig wedi'i dinistrio'n llwyr.** | **Ar y fferm neu oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |
| | **Gwaith heb ganiatâd wedi'i wneud ar henebion cofrestredig** | **Ar y fferm neu oddi ar y fferm** | **Isel:** Heb achosi difrod<br><br>**Uchel:** Wedi achosi difrod | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |
| ***LLYGREDD DŴR*** | | | | |
| | Heb roi gwybod i Asiantaeth yr Amgylchedd am storfa silwair neu slyri newydd | Ar y fferm neu oddi ar y fferm | **Isel** | Modd ei gywiro |
| *Amddiffyn pob nodwedd ddŵr – llynnoedd, pyllau, afonydd, nentydd a ffosydd - o ddifrod yn sgil trwytholchi tail, gwrtaith, cemegion eraill a sgeintiad sydd wedi drifftio o gaeau cyfagos.* | **Heb amddiffyn nodweddion dŵr**<br><br>Llynnoedd, pyllau, afonydd, nentydd a ffosydd rhag difrod yn sgil trwytholchi tail, gwrtaith, cemegion eraill a sgeintiad sydd wedi drifftio o gaeau cyfagos. | Ar y fferm neu oddi ar y fferm | **Uchel** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| At ddibenion Arfer Ffermio Da, mae ‘dŵr daear’ yn golygu unrhyw ddŵr sydd o dan wyneb y ddaear sydd yn y gylchfa ddirlawnder (hynny yw, o dan y lefel trwythiad) ac mewn cysylltiad uniongyrchol â’r pridd neu’r isbridd.<br><br>Yn y cyd-destun hwn mae ‘caniatâd’ yn golygu naill ai Trwydded Rheoli Gwastraff, awdurdodiad o dan Reoliadau Dŵr Daear 1998, caniatâd i ollwng o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 neu ganiatâd o dan Reoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2003.<br><br>Dylai hawlwyr:<br><br>➔ Waredu’r sylweddau a restrir yn Atodiad 2d, fel dip defaid wedi’i ddefnyddio a golchion plaladdwyr, i dir gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd yn unig;<br><br>➔ Cydymffurfio â hysbysiadau ac awdurdodiadau a gyflwynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer diogelu dŵr daear. | Gwaredu dip defaid neu olchion plaladdwyr dros ben neu sylweddau rhestr 1 eraill heb ganiatâd. | Ar y fferm neu oddi ar y fferm | Canolig<br><br>Uchel | Yn y rhan fwyaf o achosion: Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |
| | Heb gydymffurfio ag amodau Awdurdodiad Dŵr Daear | Ar y fferm neu oddi ar y fferm | Isel – Categori 3 a 4<br><br>Canolig – Categori 2<br><br>Uchel – Categori 1<br><br>Mae difrifoldeb yn cyfeirio at gategori 1 i 4 yng nghyfarwyddiadau gweithio Asiantaeth yr Amgylchedd. | Yn y rhan fwyaf o achosion: Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |

*LLYGREDD AER*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn y rheolau hyn, mae ‘gweddillion cnydau’ yn golygu gwellt neu sofl neu unrhyw weddillion cnydau eraill ar y tir ar ôl cynaeafu’r cnwd a dyfir ar y tir hwnnw.<br><br>Gwahardd llosgi<br>Mae’r rheol hon yn berthnasol i’r gweddillion cnydau canlynol:<br><br>➔ Gwellt ŷd; Sofl ŷd; a<br><br>➔ Gweddillion rêp had olew, ffa maes wedi’u cynaeafu’n sych, a phys wedi’u cynaeafu’n sych.<br><br>Ni ddylech losgi unrhyw un o’r gweddillion cnydau hyn oni bai fod y llosgi ar gyfer:<br><br>➔ Addysg neu ymchwil;<br><br>➔ Rheoli clefydau neu ddileu plâu planhigion lle cyflwynwyd hysbysiad o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain) 1993; neu ar gyfer<br><br>➔ Gwaredu gweddillion tas wellt neu fêls wedi torri;<br><br>Cyfyngiadau ar losgi<br>Mae yna gyfyngiadau ar losgi:<br><br>➔ Gweddillion had llin;<br><br>➔ Gweddillion cnydau a restrwyd uchod ar gyfer (i) addysg neu ymchwil; a (ii) gweddillion cnydau eraill ar gyfer rheoli clefydau neu ddileu plâu planhigion lle cyflwynwyd hysbysiad o dan Erthygl 22 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain) 1993.<br><br>Ni ddylech losgi unrhyw un o’r gweddillion cnydau a restrwyd uchod o dan ‘Gwahardd llosgi’, gan dorri unrhyw gyfyngiadau. | Wedi gwneud gwaith llosgi sy’n mynd yn groes i’r rheolau hyn (ac eithrio llosgi damweiniol neu a achoswyd gan dân a gynnwyd yn fwriadol gan drydydd parti). | Yn y rhan fwyaf o achosion: Yn effeithio ar y fferm yn unig<br><br>Mewn achosion eithafol: Ddim yn effeithio ar y fferm yn unig | Canolig | Yn y rhan fwyaf o achosion: Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tystiolaeth o losgi gwastraff a oedd yn cynhyrchu mwg tywyll** | Ar y fferm | **Braidd dim (isel os bwriadol)** | ***Modd ei gywiro*** |
| ***GWRTAITH A PHLALADDWYR*** | | | | |
| **Gallwch ganfod a yw eich tir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig trwy gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).**<br><br>**Ar dir sydd wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion a, b, c a d sy'n berthnasol i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt.**<br><br>**Dylid darllen y gofynion hynny yma fel rhai sy'n berthnasol i dir sydd wedi'i ddynodi Ardal Cadwraeth Arbennig yn hytrach nag Ardal Gwarchodaeth Arbennig.** | **Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith na roddwyd hysbysiad/caniatâd ar ei gyfer; neu**<br><br>**Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith a heb gydymffurfio â thelerau'r caniatâd (ar lefel dechnegol).** | **Yn y rhan fwyaf o achosion : Yn effeithio ar y fferm yn unig**<br><br>**Mewn achosion o effaith pellgyrha - eddol: Ddim yn effeithio ar y fferm yn unig** | **Isel: Dim difrod**<br><br>**Canolig: ychydig o ddifrod**<br><br>**Uchel: Difrod difrifol** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi achosi difrod neu wedi dinistrio'r nodwedd o ddiddordeb gwyddonol neu wedi tarfu ar y ffawna (sydd hefyd yn nodwedd o ddiddordeb mewn ACA) | Yn y rhan fwyaf o achosion : Yn effeithio ar y fferm yn unig<br><br>Mewn achosion o effaith pellgyrha - eddol: Ddim yn effeithio ar y fferm yn unig | Canolig neu Uchel<br>I'w bennu yn unol â chanlyniadau'r diffyg cydymffurfio | Parhaol |
| ***RHEOLI AMAETHYDDOL / COEDWIGOEDD*** | | | | |
| **Gorchmynion Cadw Coed**<br><br>**Rhaid bod yr ymgeisydd heb dorri unrhyw Orchmynion Cadw Coed.** | **Mae'r ffermwr wedi torri neu'n difa coeden sydd wedi'i gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed** | **Ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |
| | **Nid yw'r ffermwr wedi plannu coeden yn lle coeden warchodedig fel amod o ganiatâd i gwympo coeden warchodedig.** | **Ar y fferm** | **Canolig** | **Modd ei gywiro** |
| | **Nid yw'r ffermwr wedi ailblannu ar ôl torri'r Gorchymyn.** | **Ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro** |
| **Cwympo coed**<br><br>**Ni ddylai'r ymgeisydd fod wedi cwympo coeden heb drwydded, pan oedd angen trwydded o'r fath. Dylent fod wedi cydymffurfio â hysbysiad ailstocio neu amodau neu gyfarwyddiadau eraill a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Coedwigaeth, oni bai ei fod wedi digwydd o ganlyniad i reswm cyfreithlon.** | **Mae'r ffermwr wedi cwympo coed trwyddedadwy neu goed heb y Drwydded Gwympo angenrheidiol.** | **Ar y fferm** | **Canolig**<br><br>**Mewn achosion eithafol: Uchel** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mae'r ffermwr wedi methu'n anghyfreithlon â chydymffurfio ag amodau Trwydded Gwympo neu fethu â chydymffurfio â chyfarwyddeb cwympo coed.** | **Ar y fferm** | **Canolig**<br><br>**Mewn achosion eithafol: Uchel** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |
| | **Mae'r ffermwr wedi methu'n anghyfreithlon â chydymffurfio â hysbysiad Ailstocio neu Orfodi.** | **Ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn y rheolau hyn:<br><br>Mae 'gorbori' yn golygu pori tir gyda chymaint o dda byw fel bod twf, ansawdd neu amrywiaeth y llystyfiant naturiol neu led-naturiol wedi'i effeithio'n andwyol.<br><br>Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod amod rheoli ar drefniadau tir sydd wedi'i orbori ar eich daliad, ni allwch dorri'r amod honno.<br><br>Pan nad oes amod rheoli mewn grym ar eich daliad ni ddylech:<br><br>Orbori'r llystyfiant naturiol a lled-naturiol ar eich daliad; neu<br><br>Gynnal unrhyw fwydo atodol anaddas | Gorbori cynefin naturiol neu led-naturiol pan nad oes amod rheoli mewn grym | Yn effeithio ar y fferm yn unig (yn cynnwys pori tir comin) | Braidd dim – Oni bai ei fod yn eithafol<br><br>Isel (bwriadol)<br><br>Rhaid ei asesu trwy arolwg maes, ac os bydd yn torri'r rheolau, mae'n rhaid gosod amod rheoli<br><br>Uchel – mewn achosion eithafol, rhaid ei asesu trwy arolwg maes, ac os bydd yn torri'r rheolau (dros 90% o'r holl bwyntiau sampl yn dangos pori trwm) mae'n rhaid gosod amod rheoli | Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |
| | Mae'r ffermwr wedi gadael i dda byw fynd ar uned bori sydd o dan amod rheoli gan arwain at dorri'r amod. | Yn effeithio ar y fferm yn unig (yn cynnwys pori tir comin) | Braidd dim – hyd at 5% o unedau da byw a bennwyd<br><br>Isel – 5%-25% o'r unedau da byw a bennwyd<br><br>Canolig – mwy na 25% hyd at 50% o'r unedau da byw a bennwyd<br><br>Uchel – dros 50% o'r unedau da byw a bennwyd | Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |
| | Mae'r ffermwr wedi gadael i dda byw fynd ar uned bori sydd o dan amod rheoli yn ystod cyfnod gwaharddedig | Yn effeithio ar y fferm yn unig (yn cynnwys pori tir comin) | Braidd dim – hyd at 5% o'r unedau da byw a bennwyd<br><br>Isel – 5%-25% o unedau da byw a bennwyd<br><br>Canolig – mwy na 25% hyd at 50% o'r unedau da byw a bennwyd<br><br>Uchel – dros 50% o'r unedau da byw a bennwyd | Modd ei gywiro<br><br>Mewn achosion eithafol: Parhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ar dir cymwys nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cynhyrchu amaethyddol, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol (o leiaf):**<br><br>**➔ Torri prysgwydd, a thorri neu bori llystyfiant trwchus yn yr ardal gyfan o leiaf unwaith bob pum mlynedd, gyda dim mwy na 50% o dir daliad yn cael ei dorri neu ei bori ym mlwyddyn pedwar neu bump. Pan nad yw'r tir wedi'i dorri neu ei bori ers tair blynedd, dylech sicrhau bod 50% ohono'n cael ei dorri neu ei bori ym mlwyddyn pedwar.**<br><br>**➔ Ar ôl y cynhaeaf, sefydlu a chynnal gorchudd glas cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol. Gellir cyflawni hyn trwy hadu neu drwy aildyfiant naturiol. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi sefydlu gorchudd glas os gallwch chi ddangos eich bod yn bwriadu ailddechrau gwaith cynhyrchu amaethyddol ar y tir erbyn 15 Mai.**<br><br>**➔ Gellir aredig y gorchudd glas i baratoi ar gyfer cnwd âr neu ail-hadu.**<br><br>**Yn ogystal â'r uchod, ni ddylech:**<br><br>**➔ Dorri llystyfiant ar y tir hwn rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf (er mwyn osgoi tarfu ar adar sy'n nythu), oni bai fod hyn yn angenrheidiol i fodloni'r amod i fod mewn cyflwr amaethyddol da (GAECC) neu at ddibenion neilltir yn unol â rheolau neilltir;**<br><br>**➔ Defnyddio'r tir at ddefnydd cerbydau nad ydynt yn rhai fferm; neu**<br><br>**➔ Wasgaru neu gadw tail neu slyri ar y tir ac eithrio wrth baratoi ar gyfer cnwd sy'n dilyn (hyd at uchafswm o ddau fis cyn hau).** | **Heb dorri neu bori mewn 5 mlynedd.** | **Yn effeithio ar y fferm yn unig** | **Canolig** | **Modd ei gywiro** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Osgoi bwydo atodol os yw hyn yn achosi difrod i'r llystyfiant ac yn sathru'r pridd** | **Bwydo atodol anaddas ar gynefin naturiol neu led-naturiol lle na fydd yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol erbyn diwedd y tymor tyfu** | **Ar y fferm** | **Braidd dim: Hyd at 0.05ha**<br>**Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith bwydo atodol anaddas sy'n effeithio'n ddifrifol ar hyd at 0.05ha o'r tir.**<br>**(Isel os yn fwriadol)**<br><br>**Isel: Hyd at 0.125ha sy'n cael mwy o effaith na llythyr rhybuddio.**<br><br>**Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith bwydo atodol anaddas sy'n effeithio'n ddifrifol ar 0.05 i 0.125ha o'r tir (ddim yn cynnwys 0.125ha).**<br><br>**Canolig: o 0.125 hyd at 0.5ha**<br>**Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith bwydo atodol anaddas sy'n effeithio'n ddifrifol ar 0.125ha i 0.5ha o'r tir.**<br><br>**Uwch: Dros 0.5ha**<br>**Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith bwydo atodol anaddas sy'n effeithio'n ddifrifol ar dros 0.5ha o'r tir.** | **Modd ei gywiro**<br><br>**Mewn achosion eithafol: Parhaol** |
| ***DEDDFWRIAETH DIOGELU'R AMGYLCHEDD*** | | | | |
| **Gofynion deddfwriaethol sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru. Cânt eu goruchwylio gan asiantaethau gwahanol.** | **Tystiolaeth o dorri deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd** | **Ar y fferm neu oddi ar y fferm** | **Isel, Canolig, Uchel**<br>**Yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r achos o dorri'r ddeddfwriaeth** | **Modd ei gywiro neu Barhaol** |